

Croeso i ddiweddariad trwyddedu rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

Rydym yn gobeithio fod pawb ohonoch wedi mwynhau'r Pasg a bod y tywydd garw bellach y tu ôl inni! Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhoi sylw i rai newidiadau yr ydym yn eu gwneud i geisio gwella ein heffeithiolrwydd wrth asesu ceisiadau am drwyddedau.

Diweddariadau i ddogfennau ymgeisio

Rydym wedi derbyn nifer fawr o geisiadau yn ddiweddar ar hen ffurflenni cais a thempledi datganiad dull.

Gofalwch eich bod yn lawrlwytho'r fersiynau diweddaraf o'n dogfennau o'n gwefan.

Rydym yn deall y bydd gwaith yn cael ei wneud ar rai ceisiadau am nifer o fisoedd cyn eu cyflwyno; fodd bynnag, rydym yn dal yn gofyn ichi edrych ar y wefan cyn eu hanfon i sicrhau eich bod yn defnyddio'r ffurflenni diweddaraf. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar hen ffurflenni neu dempledi yn cael eu gwrthod.

Dyddiad cyhoeddi trwyddedau

Ar hyn o bryd rydym yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn yn holi pryd fydd trwyddedau'n cael eu cyhoeddi. Mae ein neges gydnabod yn nodi dyddiad yn seiliedig ar ein cyfnod prosesu o 30 diwrnod gwaith, a byddwn yn anelu at brosesu'r trwyddedau erbyn y dyddiad hwn.

Ni allwn roi diweddariadau perthnasol ynglŷn â cheisiadau cyn y dyddiad hwn ac o'r herwydd gofynnwn eich bod yn cysylltu â ni yn unig os bydd y cyfnod 30 diwrnod gwaith wedi mynd heibio. Bydd ein ffonio cyn hyn yn gohirio'r gwaith o brosesu ceisiadau.

Sylwer hefyd, os bydd oediad yn eich cais yn ystod unrhyw gam, bydd y cloc yn stopio nes bydd y mater wedi ei ddatrys.

Diweddarau dogfennau diwygiedig

Os bydd ffurflen gais neu ddatganiad dull yn cael ei ddiwygio yn ystod cais, gofalwch fod rhif fersiwn y ddogfen yn cael ei ddiweddarau, a bod dyddiadau'r datganiadau hefyd yn cael eu diweddarau.

Bydd hyn yn lleihau unrhyw oediadau o ganlyniad i ddyddiadau cais diwygiedig yn cael eu dyddio'n anghywir. Gofalwch hefyd fod unrhyw newidiadau i'r dogfennau'n cael eu hamlygu'n glir.

Y confensiwn enwi ar gyfer dogfennau ymgeisio

Er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd wrth asesu ceisiadau trwyddedau datblygu EPS, byddem yn eich argymhell i enwi dogfennau ymgeisio yn briodol, er mwyn iddi fod yn eglur pa rai yw'r dogfennau priodol. Dyma'r confensiwn enwi yr ydym yn ei argymhell:

1. Ffurflen Gais
2. Datganiad Dull
3. Ffurflen Ymgynghoriad Awdurdod Cynllunio Lleol
4. Caniatâd Cynllunio
5. Cofnodion Pwyllgor Cynllunio
6. Penderfyniad Dirprwyedig
7. Caniatâd Adeilad Rhestredig
8. Gorchymyn Dymchwel
9. Dogfen Swyddogol Cyflawni Amodau
10. Adroddiadau Arolwg (os cânt eu darparu ar wahân)
11. Datganiad gan Ganolwr 'rhowch enw'

Cronfa ddata newydd

Ar hyn o bryd rydym yn y broses o ddatblygu system gronfa ddata newydd i reoli ceisiadau am drwyddedau. Yn y tymor hir, bydd hyn yn symleiddio'r gwaith o brosesu ceisiadau, ac yn caniatáu inni wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'n cwsmeriaid.

Fodd bynnag, bydd datblygu'r system yn golygu llawer o amser staff, ac efallai y byddwn yn cymryd mwy o amser nag arfer i gydnabod derbyn ceisiadau neu i ateb ymholiadau dros y misoedd nesaf. O'r herwydd gofynnwn ichi fod yn amyneddgar yn ystod y cyfnod hwn.

Dylid cyfeirio pob ymholiad drwy adran ymholiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000653000.

